Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

2.00pm ar 30 Ionawr 2024 drwy Microsoft Teams

Yn bresennol:

Claire Bevan
Julia Evans
Chris Knight
David Powell
Siân Richards

TIAA:

Helen Cargill

Swyddfa Archwilio Cymru:

Helen Goddard

Hefyd yn bresennol:

Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kelly Davies, Prif Swyddog Gweithredu
Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi
Katie Holliday, Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Ruth Thomas, Uwch-gynorthwyydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau:

Dim

Camau gweithredu heb eu cyflawni:

Dyddiad	Manylion	Enw	Dyddiad Cwblhau
30 Ionawr	I ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Cyrff Statudol Llywodraeth Cymru (WGSB), Penaethiaid Hyfforddiant Twyll Cyllid a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (CPHC).	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Ebrill 2024
30 Ionawr	I sicrhau bod y Gofrestr Risg yn cael ei dyddio.	Prif Swyddog Gweithredu	Ebrill 2024
30 Ionawr	I rannu adroddiad Dim Mynediad: Allgáu Digidol a chylchlythyr CPHC gydag Aelodau.	Uwch Gynorthwyydd Gweithredol	Chwefror 2024
30 Ionawr	I ddarparu llinell amser ar gyfer adolygiad dilynol o'r Cydbwyllgorau Corfforedig.	Archwilio Cymru	Ebrill 2024

1 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a llongyfarchodd Siân Richards, Cyfarwyddwr Datblygiad Digidol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), ar ei phenodiad yn Aelod o'r Pwyllgor. Gwnaed cyflwyniadau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Cytunwyd y byddai trawsgrifiad o'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben cymryd cofnodion.

i) Cofrestr Buddiannau

Roedd dau ddiweddariad wedi'u gwneud i'r Gofrestr Buddiannau cyn y cyfarfod. Nodwyd a derbyniwyd y rhain.

ii) Datgan Camau Gweithredu Tendr Sengl

Roedd un tendr sengl wedi'i gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer yr ymarfer Gwerthuso Swyddi a Chymorth Graddio (JEGS). Rhoddwyd gwybod i'r aelodau drwy neges e-bost y tu allan i'r cyfarfod.

iii) Cyngor a roddwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Dim i'w nodi.

2 Adolygiad o'r cofnodion

Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Hydref a materion sy'n codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent yn cael sylw mewn mannau eraill ar yr agenda.

3 Archwiliad Mewnol – SICA

Rhannodd Helen Cargill y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo a chyflwynodd Bapur 3. 30 01 2024.

Roedd dau archwiliad wedi'u cwblhau ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Parhad Busnes ac Iechyd a Diogelwch. Roedd y ddau faes wedi derbyn lefelau sicrwydd cadarnhaol, gyda mân argymhellion ond yn cael eu hawgrymu at ddiben Rheoli Iechyd a Diogelwch.

Holodd Julia Evans a oedd gan y sefydliad Hyrwyddwr Twyll. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, er nad oes Hyrwyddwr Twyll penodol wedi'i enwi, bod y Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Gwrth-wyngalchu Arian a'r Cynllun Ymateb i Dwyll wedi cael eu diweddaru a'u cyflwyno yn y cyfarfod blaenorol. Adroddwyd bod Hyfforddiant Twyll wrthi'n cael ei drefnu ar gyfer Grŵp Penaethiaid Cyllid WGSB ac y bydd camau gweithredu ar gyfer CPHC yn cael eu nodi ar ôl yr hyfforddiant hwnnw.

Cadarnhaodd Helen Cargill fod nodiadau briffio cleientiaid ar gael ar y wefan a'u bod ar gael i'w gweld / rhannu.

Diolchodd y Cadeirydd i Helen Cargill am y diweddariad.

4 Adroddiadau Archwilio Mewnol

i) Iechyd a Diogelwch

Cyflwynodd Helen Cargill adroddiad archwilio Rheoli Iechyd a Diogelwch (Papur 4i. 30 01 2024) a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r sgôr sicrwydd rhesymol.

Hysbyswyd y Pwyllgor mai hwn oedd archwiliad cyntaf y Comisiynydd ar Iechyd a Diogelwch a bod y tri argymhelliad a ddarparwyd wedi'u derbyn ac wedi'u gweithredu.

Cadarnhawyd bod staff yn gyfrifol am gynnal hunanasesiadau o'u hamgylchedd gwaith ar gyfer gweithio hybrid a bod darparwr allanol wedi darparu hyfforddiant i staff yn y maes hwn. Roedd asesiadau yn y fan a'r lle wedi cael eu cynnig i staff a oedd eisiau ymweliad cartref. Diolchwyd i'r Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol am weithredu prosesau newydd a'r gwaith sylweddol a wnaed yn y maes hwn.

Nododd a chroesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cadarnhaol. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod CPHC hefyd wedi cael Statws Aur yn y Wobr Iechyd Gweithle Bach, sy'n darparu lefel ychwanegol o sicrwydd iechyd a diogelwch.

ii) Cynllun Parhad Busnes

Cyflwynodd Helen Cargill adroddiad archwilio Parhad Busnes (Papur 4ii. 30 01 2024) a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r sgôr sicrwydd sylweddol. Ystyriwyd bod y cynllun yn gymesur â'r sefydliad, heb unrhyw faterion i'w codi.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod profion ar ystod eang o senarios wedi cael eu cwblhau, gyda ffocws ar seibergadernid ar hyn o bryd.

Cadarnhawyd na fydd unrhyw effaith sylweddol ar barhad busnes o ganlyniad i'r cynllun Ymadael Gwirfoddol, ac y bydd unrhyw newidiadau yn swyddogaeth weithredol rolau staff yn cael eu rheoli'n fewnol.

Canmolodd y Pwyllgor CPHC ar yr adroddiad archwilio cadarnhaol. Diolchodd y Cadeirydd i Helen Cargill am yr adroddiadau archwilio a chroesawodd y lefel sylweddol o sicrwydd a ddarperir ganddynt.

5 Archwilio Cymru – Diweddariad mis Ionawr

Rhoddodd Helen Goddard ddiweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor, gan dynnu sylw at elfennau allweddol o Bapur 5. 30 01 2024. Cadarnhawyd bod gwaith dadansoddi data yn mynd rhagddo ac y bydd gwaith ar archwiliad 2023-2024 yn dechrau yn y gwanwyn. Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd modelu gan ddefnyddio dadansoddeg data yn gwella ansawdd yr archwiliad, gan gynnig gwahanol ffyrdd o samplu, ac y bydd yn cymryd amser i sicrhau bod data cleientiaid yn cael ei ystyried. Cydnabuwyd na fydd y broses newydd o reidrwydd yn arbed arian ar y dechrau.

Nododd Helen Goddard ei bod yn braf gweld bod argymhellion ar lywodraethu o adroddiad Archwilio Cymru Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cael eu cyfeirio ar gyfer gwaith dilynol gan y Prif Swyddog Gweithredu.

Rhoddwyd diweddariad manwl i'r Pwyllgor ar y rhesymau dros y cynnydd o 6.4% yng Nghynllun Ffioedd Archwilio Cymru.

Cytunodd Archwilio Cymru i adrodd yn ôl ar yr amserlen ar gyfer adolygiad dilynol o'r Cydbwyllgorau Corfforedig.

6 Cofrestr Risg Strategol

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr adroddiad crynodeb risg a'r papurau cysylltiedig (Papurau 6i-iii. 30 01 2024), gan ddarparu trosolwg lefel uchel o'r newidiadau a wnaed i'r gofrestr risg o fis Hydref 2023 ymlaen.

Cadarnhawyd bod tair risg wedi gostwng oherwydd y gwaith sylweddol a wnaed ar seibergadernid. Dyfarnwyd ardystiad *Cyber Essentials* i CPHC ym mis Tachwedd, ac yna *IASME* Lefel 1 a *Cyber Essentials Plus* ym mis Ionawr 2024.

Adroddwyd bod y Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol yn gweithio tuag at gyflawni *IASME* Lefel 2 erbyn diwedd mis Mawrth 2024, yn ogystal â gwella'r gwaith

o reoli data ar draws y sefydliad. Croesawodd y Pwyllgor yr ardystiadau hyn sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r toriad yn y gyllideb a dderbyniwyd, a'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol agored, yn ogystal â'r gallu i gyflawni'r rhaglen waith.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r rhaglen waith yn mynd rhagddi fel y bwriadwyd ond y byddai'n rhoi ystyriaeth briodol i ddyddiadau lansio a chyn dechrau unrhyw eitemau newydd o waith neu ymateb i unrhyw faterion newydd a allai godi.

Cytunwyd y byddai'r dyddiad ysgrifennu yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Risg ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y risg a nodwyd o ran trosglwyddo i Gomisiynydd newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am yr adroddiad cynhwysfawr.

7 Perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Polisi drosolwg cynhwysfawr o gyflawniad y Comisiynydd yn erbyn y cynllun gwaith (Papur 7. 30 01 2024), gan dynnu sylw at y ffaith bod nifer o brosiectau ar fin cael eu cwblhau.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ba gamau y bydd angen eu cymryd ar ôl ethol Prif Weinidog newydd y mis hwn.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ac Arolygiaeth Iechyd Cymru ynghylch defnyddio modiwl hyfforddi CPHC ar wahaniaethu ar sail oedran gyda staff.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr adroddiad 'Dim Mynediad: Allgáu Digidol' wedi cael ei gyhoeddi a byddai'n cael ei rannu ag Aelodau. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad ar Fynediad at Feddygon Teulu yn cael ei lansio ym mis Chwefror.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac ehangder y gweithgarwch sy'n cael ei wneud gan y Comisiynydd a'r tîm er gwaethaf pwysau'r toriadau yn y gyllideb a'r effaith ar y sefydliad. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad.

8 Adroddiad Llywodraethu Chwarterol, gan gynnwys:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

i) Adroddiad Llywodraethu

Cafwyd un mân ddamwain ers y cyfarfod diwethaf.

ii) Adroddiad Iechyd y Sefydliad

Mae un aelod o staff ar gyfnod prawf ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw aelod o staff ar absenoldeb salwch.

Cadarnhawyd bod sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda'r holl staff yn dilyn cyfnod o absenoldeb salwch ac nad oedd unrhyw bryderon ynghylch lefel yr absenoldeb salwch tymor byr a oedd wedi'i gymryd yn ystod y gaeaf.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y broses JEGS bellach wedi'i chwblhau, ac nad oedd unrhyw newidiadau i fandiau swyddi wedi'u hargymell ar gyfer y staff yr oedd eu rolau'n cael eu gwerthuso.
Diweddariad Ymadael Gwirfoddol: cadarnhawyd bod ceisiadau am ddyfynbrisiau wedi cael eu hanfon i gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gyda'r bwriad o ddod â chontractau i ben ar 31 Mawrth 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am yr adroddiad cynhwysfawr.

iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr Adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg o'r chwarter.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Comisiynydd yn cael ei chyfweld ar BBC *Wales Today* y noson honno i drafod yr adroddiad ar allgáu digidol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision ac anfanteision targedau cyfathrebu. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyfryngau ar gyfer pob darn o waith yn cael ei adolygu ar sail unigol. Pwysleisiwyd bod y cyhoedd yn cael gwybod am y Comisiynydd a'i thîm mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ymweliadau wyneb yn wyneb, cyfweliadau â'r cyfryngau, rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol ac e-gyfathrebiadau a phost er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl.

Nododd y Cadeirydd yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd a ddarparwyd ganddo.

iv) Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yr Adroddiad i'r Pwyllgor (Papur 8iv. 30 01 2024.

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon ariannol 2023-2024 y Comisiynydd, gan gynnwys y meysydd lle nodwyd arbedion a fyddai'n cael eu defnyddio i ariannu'r cynllun Ymadael Gwirfoddol. Nodwyd yr arbedion a oedd wedi cael eu gwireddu wrth i rolau aros yn wag o fewn strwythur y sefydliad a bod y gwaith ar y System Rheoli Gwaith Achos wedi cael ei ohirio tan 2024-2025.

Trafododd y Pwyllgor y pwysau sylweddol ar gynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd, gan gytuno bod y pwysau'n cael ei achosi gan chwyddiant a chostau staff cynyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd ynghylch y cwestiynau a godwyd.

v) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch a ddylid ychwanegu DSE at y Cerdyn Sgorio Cytbwys, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu na fyddai'n bosibl dangos yr arferion gweithredol hyn yn gryno.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethu Chwarterol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r maes hwn.

9 Diweddariad ar Seibergadernid (diweddariad ar lafar)

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad i'r Pwyllgor ar seibergadernid y Comisiynydd. Cefnogodd yr aelod newydd o'r ARAC ar gyfer diogelwch digidol a seiberddiogelwch yr eitem agenda hon.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid oes cofnod o'r drafodaeth am yr eitem hon.

11 Treuliau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Dreuliau. Awgrymwyd y byddai trosolwg o'r treuliau'n dderbyniol i'r Pwyllgor, yn hytrach na dadansoddiad yn erbyn dwy daflen fel y'u darparwyd ar hyn o bryd.

12 Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y Gofrestr ar gyfer y chwarter.

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd ar y Gofrestr ar gyfer y chwarter.

13 Unrhyw Faterion Eraill

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr hysbyseb ar gyfer y Comisiynydd newydd bellach yn fyw, gyda dyddiad cau ar ddechrau mis Chwefror. Disgwylir y bydd y Comisiynydd newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2024.

14 Adolygu'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth ynglŷn ag eitemau i'w cynnwys ar yr agenda a ffocws cyfarfodydd yn y dyfodol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau defnyddiol, yn enwedig am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn y gyllideb ar yr un pryd â chynnal yr effaith yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol.

Nodwyd bod y papurau yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi argraff gadarnhaol o waith hanfodol y Comisiynydd. Cytunwyd y byddai'r dull o ddosbarthu a chael gafael ar y papurau yn cael ei adolygu cyn y cyfarfod nesaf.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod wedi'i gadeirio'n effeithiol a'i fod wedi'i drefnu'n dda.

15 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor ar 30 Ebrill 2024 am 10.00am (MS Teams).

Bydd sesiwn ar-lein ar Seibergadernid yn cael ei chynnal ar 21 Mawrth, gyda chyfle i drafod meysydd datblygu yn y dyfodol ar gyfer y flwyddyn i ddod.